

**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr
ABERAERON**
**a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron
ac o bell drwy fideo gynadleda ddydd Iau, 27 Mawrth 2025**

Cynrychiolaeth Cyngor Sir Ceredigion: y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) y Cynghorwyr Elizabeth Evans a Shelly Childs

Swyddogion yn bresennol: Owen Morgan, Katy Spain, Robyn Beresford, Dana Jones

Defnyddwyr Harbwr: Jonathan Price Jones, David Nicholson, Martin Wood, Steve Webb, Julian Driver

(5.30pm – 5:55pm)

1. **Ymddiheuriadau**
Dim.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024**
CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod 14 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

Materion yn codi

Roedd yr holl faterion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu

3. **Diweddariad ar Wasanaethau'r Harbwr**

- Cynhaliwyd proses recriwtio i benodi Cynorthwydd Harbwr Tymhorol yn dilyn ymddiswyddiad Chris Cattaway. Bydd Eva Rees yn dechrau yn ei swydd fel Cynorthwydd Harbwr Tymhorol ar 03 Ebrill 2025. Roedd Robyn Beresford wedi llwyddo i sicrhau swydd Arweinydd Gwaith Harbwr yn dilyn ymddiswyddiad Chay Sanders. Bydd recriwtio yn agor ar gyfer Cynorthwydd Harbwr Tymhorol i gymryd lle Robyn a'r gobaith yw penodi un o'r ymgeiswyr blaenorol ar gyfer y Cynorthwydd Harbwr Tymhorol a gafodd ei hysbysebu yn ddiweddar.
- Darparwyd diweddariad ar y Cynllun Amddiffyn Arfordirol a'r cymhorthion i drefniadau mordwyo a oedd yn cynnwys Rheolwr yr Harbwr yn arddangos diagramau yn y cyfarfod. Byddai Rheolwr yr Harbwr yn anfon Hysbysiad Lleol i Forwyr ar y diwrnod canlynol yn esbonio'r newid i farciau arbennig yn harbwr Aberaeron a gytunwyd arno gan Trinty House. NODYN AR ÔL Y CYFARFOD – Gellir dod o hyd i gopi o Hysbysiad Lleol i Forwyr AE 03.25: <https://www.ceredigion.gov.uk/media/bnzdzy0/ae-no-0325-aberaeron.pdf>
- Atgoffwyd defnyddwyr yr Harbwr eu bod yn cael eu hannog i gysylltu â'r Gwasanaeth Harbwr y tu allan i gyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr, drwy Clic a'r Cymorthfeydd Harbwr.

4. **Rhestr Aros Angori**

Cytunwyd i nodi'r rhestr aros angori fel y'i cyflwynwyd.

5. Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid

- Adroddwyd bod rhaglen golchi'r llithrfa yn cael ei pharatoi ar gyfer y tri harbwr. Disgwylwyd y byddai'r llithrfeydd yn cael eu golchi sawl gwaith trwy gydol y tymor yn unol ag adnoddau.
- Roedd y gwaith i ailosod y cylchoedd angori a nodwyd gyda'r Tîm Caffael ar hyn o bryd i'w symud ymlaen. Roedd gwaith i gael gwared ar foncyffion / malurion o fasn yr harbwr wedi'i drefnu i ddigwydd dros y dyddiau nesaf. Byddai'r contractwr hefyd yn codi cadwyni yn Doc Bach ar gais deiliaid angori ac roedd e-bost wedi'i anfon at ddeiliaid angori perthnasol yn eu hysbysu bod hyn ar gael iddynt.

6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr Harbwr

- Gwnaed cais ynghylch a allai defnyddwyr harbwr wneud eu trefniadau eu hunain i fflatio ardal lle roedd cronïad o gerrig mân wedi datblygu wrth eu hangori. Dywedwyd wrth yr unigolyn sydd wedi gwneud y cais, yn anffodus, y byddai angen trwydded gan y Cyngor, datganiad dull ac asesiad risg ar gyfer unrhyw waith trydydd parti preifat, a byddai'n ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau perthnasol a osodir gan y Ddeddf Harbwr berthnasol neu ofynion Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, cadarnhawyd y byddai Gwasanaeth yr Harbwr yn ymgysylltu'n fewnol (gyda'r adran ecoleg a'r Clerc Gwaith) i sefydlu a fyddai'n bosibl i'r contractwr a oedd i fod i gael gwared ar y boncyffion / malurion ymgymryd â'r gwaith hwn fel estyniad i gwmpas y gwaith.
- Roedd Defnyddwyr yr Harbwr yn dymuno llongyfarch Rheolwr yr Harbwr ar ei gyflawniad diweddar o dderbyn Tystysgrif Meistri Harbwr.